# Cefnogi arweinwyr a staff mewn ysgolion ac UCD i arfarnu eu darpariaeth wrth ymateb i COVID-19 a gweld beth lwyddodd a pha feysydd sydd angen mwy o sylw

## CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Mae’r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn aruthrol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd yn sylweddol ar y system addysg ac ysgolion. Ar 23 Mawrth 2020, newidiwyd pwrpas ysgolion, i gefnogi plant gweithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus ar yr un pryd â chefnogi pob dysgwr i aros yn ddiogel a dal ati i ddysgu gartref.

Ar 3 Mehefin 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) y byddai ysgolion yn ailagor yn raddol o 29 Mehefin, 2020 er mwyn rhoi cyfle i bob disgybl "ddod i'r ysgol, dal ati i ddysgu a pharatoi". Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chanllawiau Dysgu [https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-coronafeirws] i gynnig cyngor ar y dysgu a'r addysgu a fyddai'n digwydd mewn ysgolion a lleoliadau am weddill tymor yr Haf ac i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer tymor yr Hydref.

Ar 9 Gorffennaf, 2020 cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y byddai pob disgybl yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi ac y byddai'n ofynnol i ysgolion ddychwelyd yn llawn erbyn 14 Medi. Cyhoeddodd y Llywodraeth ragor o ganllawiau dysgu [https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19**]** ar gyfer tymor yr Hydref, oedd yn rhoi set gyffredin o flaenoriaethau ar gyfer dysgu i ysgolion a phartneriaid cefnogi, waeth beth oedd lefel y gweithredu mewn ymateb i COVID-19.

Yn ystod Tymor yr Hydref, roedd yr effaith ar ysgolion yn amrywio'n sylweddol ar draws y rhanbarth. Mewn rhai ysgolion, roedd blynyddoedd cyfan yn gorfod hunan-ynysu gartref yn rheolaidd am gyfnod estynedig, tra bo eraill yn gallu agor i bob disgybl drwy gydol y tymor.

Ar 4 Ionawr 2021, yn sgil cyflwyno ail gyfnod clo, parhaodd yr ysgolion ar gau i bob plentyn ar wahân i blant gweithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus, a gwelwyd ysgolion yn darparu dysgu o bell am ran fwyaf Tymor y Gwanwyn.

Yn yr wythnos yn cychwyn 22 Chwefror 2021, dechreuodd blant dan 7 oed yn y Cyfnod Sylfaen yn ôl yn yr ysgol, efo plant ysgolion cynradd eraill a myfyrwyr uwchradd hŷn (Blynyddoedd 11 ac 13) yn dychwelyd i'r ysgol ar 15 Mawrth 2021. O 12 Ebrill 2021, dychwelodd ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd a'r Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD) i ddarparu darpariaeth ar y safle i bob dysgwr.

## PWRPAS YR ADRODDIAD

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o sut y mae ysgolion ac UCD yng Ngogledd Cymru wedi ymateb i COVID-19 ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE yn rhan o'u gwaith yn cefnogi ysgolion yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf, 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, canolbwyntiwyd yn bennaf ar weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion ac UCD i roi cymorth iddynt arfarnu ansawdd ac effaith eu darpariaeth yn ystod y cyfnodau clo.

Defnyddiwyd y templed a geir yn Atodiad 1 *i 'brocio'* trafodaeth efo'r ysgolion, ac hefyd i gofnodi a chasglu'r wybodaeth a gafwyd. Er hynny, nid oedd rheidrwydd i ysgolion ddefnyddio'r templed hwn. Pwysleisiwyd mai enghreifftiau yn unig oedd y cwestiynau a gyflwynwyd o feysydd ac agweddau i'w hystyried ac nad y bwriad oedd iddynt gael eu dehongli fel rhestr gynhwysfawr a therfynol. Adroddiad hunanarfarnu yr ysgol a'u prosesau casglu tystiolaeth oedd man cychwyn pob trafodaeth.

Ar gyfer pob ysgol ac UCD, adroddodd yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ar:

- Sut y mae'r ysgol wedi gwerthuso ei darpariaeth a'i heffaith yn ystod y cyfnod clo;
- Beth mae'r ysgol wedi'i adnabod yw cryfderau allweddol ei darpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu yn ystod y cyfnod clo;
- Sut y mae'r ysgol yn bwriadu datblygu ar ei llwyddiannau er mwyn datblygu'r cwricwlwm newydd;
- Pa welliannau mewn darpariaeth a safonau y mae'r ysgol wedi'u hadnabod yn sgil targedu ei gwariant grant;
- Tystiolaeth yr ysgol o effaith cymorth/ymwneud GwE ac adnabod cymorth ychwanegol wrth symud ymlaen;
- Meysydd sydd angen eu datblygu a'u cefnogi ymhellach.

## PRIF GANFYDDIADAU

## SECTOR CYNRADD AC ARBENNIG

### Sut mae ysgolion wedi gwerthuso eu darpariaeth a'i heffaith yn ystod y cyfnod clo?

Ar y cyfan, mae ysgolion cynradd ac arbennig wedi defnyddio canllawiau cenedlaethol, rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn amserol ac yn bwrpasol drwy gydol pandemig COVID. Mae bron pob ysgol wedi llwyddo i werthuso ansawdd ei darpariaeth drwy'r cyfnod clo gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth a thystiolaeth defnyddiol, gan gynnwys trafodaethau rheolaidd ag ysgolion clwstwr eraill a swyddog cyswllt GwE. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi casglu barn rhanddeiliaid drwy holiaduron i ddisgyblion a rhieni, galwadau ffôn neu sgyrsiau ag unigolion. Mae llawer wedi addasu a gwella eu darpariaeth yn sylweddol ar sail y canfyddiadau hyn. Mae natur ymholiadau wedi amrywio ac wedi cynnwys ystod eang o gwestiynau yn ymwneud â holi am les, sicrhau bod gan ddisgyblion offer priodol i gwblhau eu gwaith, holi am gysylltiad digidol ac yn ymwneud ag amlder, priodoldeb ac ansawdd y ddarpariaeth ar draws pynciau.

Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid ac uwch arweinwyr wedi cael mynediad at ddosbarthiadau digidol athrawon ac wedi bod yn craffu yn anffurfiol ar waith dysgwyr ac yn monitro ansawdd y ddarpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol yn rheolaidd. Yn rhai o'r arferion gorau, gwelwyd dysgu ac addysgu byw neu gydamserol, yn ogystal â sesiynau lles o bell. Mae llawer o arweinwyr a staff wedi gwerthuso'r ddarpariaeth drwy fonitro gwaith disgyblion ar lwyfannau digidol fel Google Classrooms a SeeSaw. Mae hyn wedi cynnwys monitro asesiadau ffurfiannol ac ansawdd yr adborth i ddisgyblion. Mae rhai ysgolion wedi datblygu systemau fel bod modd trafod yn agored, yn onest ac yn gyson efo rhieni, monitro cysondeb y ddarpariaeth rhwng dosbarthiadau a monitro lles eu staff a chymuned yr ysgol.
Llwyddodd rai ysgolion cynradd wedi llwyddo i gynnal sesiynau craffu ar lyfrau mwy ffurfiol, teithiau dysgu ac arsylwi ambell wers (weithiau fel rhan o Reoli Perfformiad Staff).

Bu ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cefnogi lles disgyblion yn gryfder, gyda bron pob ysgol yn cysylltu â disgyblion a theuluoedd yn rheolaidd. Roedd trefniadau cadarn ar waith ar draws y rhan fwyaf o ysgolion i fonitro lefelau presenoldeb ac ymgysylltu yn ystod y cyfnodau clo. Adroddodd lawer o ysgolion bod lefelau ymgysylltu wedi gwella'n gyson yn yr ail gyfnod clo yn mis Ionawr 2021. Nododd rai ysgolion fod tarfu ar lefel isel pan ddychwelodd dysgwyr i'r ysgol a bod ychydig o ddisgyblion yn methu ail-gydio â bywyd ysgol.

Cafodd dysgu disgyblion ei olrhain drwy lu o wahanol ddulliau mewn ysgolion ar draws y rhanbarth, gyda llawer yn canolbwyntio ar ystod o sgiliau sylfaenol gan gynnwys defnyddio data llythrennedd a rhifedd. Mae ansawdd y systemau olrhain cynnydd disgyblion yn amrywio rhwng ysgolion. Er hynny, roedd bron pob arweinydd yn olrhain ymgysylltiad yn effeithiol yn

ystod y cyfnod clo a datblygodd rai systemau hynod effeithiol ar gyfer olrhain a thargedu darpariaeth i deuluoedd.

Rhoddodd lawer o ysgolion flaenoriaeth i weithio gydag unigolion a welwyd oedd yn fregus neu angen cymorth ychwanegol. Roedd y cymorth i ddisgyblion bregus yn aml yn amserol a chafodd teuluoedd amrywiaeth o ffyrdd o ddysgu gan gynnwys gweithgareddau ar bapur. Er hynny, gwelodd lawer o arweinwyr nad oedd y dysgwyr hyn wastad yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn ystod y cyfnod clo a bod rhai dysgwyr ADY ac/neu ddysgwyr oedd yn arfer cael anhawster, wedi cymryd cam yn ôl yn safon eu sgiliau iaith a mathemateg. Mae llawer o ysgolion wedi gweithredu mesurau priodol i gefnogi a thargedu'r dysgwyr hyn. Mae bron pob ysgol wedi cynnal rhyw ffurf o asesiadau gwaelodlin wrth ddychwelyd i'r ysgol yn sgil y cyfnod clo er mwyn pennu lefel y cymorth a'r ymyrraeth angenrheidiol ac adnabod grwpiau targed o ddisgyblion. Nododd nifer o ysgolion fod safonau disgyblion wedi llithro yn sgil y cyfnod clo cyntaf a'u bod wedi gweithredu strategaethau ymyrraeth llwyddiannus i godi safonau wrth i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol mis Medi 2020.

Nododd rai ysgolion ddirywiad yn sgiliau Cymraeg disgyblion gyda hyn yn dibynnu ar iaith yr aelwyd.

Llwyddodd Penaethiaid i gynnal cyfarfodydd staff a chyfarfodydd tîm rheolaidd ar lwyfan ddigidol drwy gydol y cyfnod clo, er mwyn trafod a monitro ymgysylltiad, cynnydd disgyblion ac addasrwydd tasgau, darpariaeth ADY a lles disgyblion. Mae bron pob ysgol wedi ystyried effaith eu darpariaeth a'i haddasu yn briodol wrth i'r cyfnod clo barhau.

Parhaodd lawer o ysgolion i gynnal cyfarfodydd rhithiol i lywodraethwyr yn rheolaidd yn ystod y cyfnod clo, gan gynnwys cynnal Rheoli Perfformiad i Benaethiaid. Mae llawer hefyd wedi trafod canfyddiadau holiaduron/arfarniad gyda'r corff llywodraethu, ond prin fu'r cyfleoedd i lywodraethwyr ymweld ag ysgolion yn ffurfiol i gynnal gweithgareddau monitro ac arfarnu. Er hynny, roedd llywodraethwyr yn gynyddol ran o hunan arfarnu yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf, 2021 mewn llawer o ysgolion. Mewn rhai ysgolion, mae hyn wedi cynnwys arfarnu adroddiadau monitro a chynnal gweithgareddau fel craffu ar waith disgyblion.

Nododd lawer o ysgolion cynradd ac arbennig fod eu harfarniadau wedi bod yn fodd iddynt barhau i ganolbwyntio ar gynllunio gwelliant drwy gydol y cyfnod ac y gwelsant fod angen gwella sgiliau allweddol a lles a pharhau i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a Thrawsnewid ADY.

**Beth mae ysgolion wedi adnabod yw cryfderau allweddol eu darpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu yn ystod y cyfnod clo?**

Gwelwyd cryfder yng ngallu staff a disgyblion i addasu'n gyflym i newid, gyda llawer yn gwella eu sgiliau digidol a'u defnydd o wahanol feddalwedd ac apiau yn sylweddol. Dywedodd bron pob ysgol bod gallu staff i addasu a bod yn greadigol wrth ddatblygu dulliau dysgu o bell a chyfunol yn gryfder. Roedd gwahaniaeth amlwg yn ansawdd y ddarpariaeth rhwng y cyfnod clo cyntaf a'r ail, gyda'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu tasgau amrywiol ac ystyrlon. Roedd llawer o athrawon yn gallu addasu eu darpariaeth i roi cynnig oedd cyn agosed â phosibl at eu harferion dosbarth arferol. Yn ôl llawer o ysgolion, maent wedi defnyddio llwyfannau digidol amrywiol yn effeithiol ar gyfer dysgu, gan gynnwys See Saw, Class Dojo, Teams a Google Classrooms, sydd yn gadael i uwch arweinwyr fonitro safon y ddarpariaeth yn rhwydd. Gwelwyd y ddarpariaeth ar gyfer ffrydio byw neu ddysgu cydamserol yn gwella'n sylweddol yn ystod yr ail gyfnod clo.

Gwelwyd ansawdd 'Asesu ar gyfer Dysgu' athrawon drwy gyfrwng dysgu o bell yn gwella ac yn datblygu i gynnwys rhoi adborth ar waith disgyblion ar ffurf recordiad llais yn ogystal â

sylwadau wedi'u hysgrifennu. Fel hyn, roedd yr athro a'r disgybl yn gallu siarad am y dysgu mewn llawer o ysgolion, oedd yn rhoi cyfle i ddisgyblion ymateb i adborth a gwella'u gwaith terfynol. Nododd lawer o ysgolion fod amrywiaeth gyfoethog o dasgau wedi'u darparu, gan gynnwys tasgau llythrennedd a rhifedd, gwaith thema yn ogystal â gweithgareddau corfforol, creadigol a lles. Magodd lawer o ddisgyblion hyder o ran asesu ansawdd eu gwaith eu hunain a dod yn fwy annibynnol yn eu dysgu.

Roedd bron i bob ysgol yn rhoi blaenoriaeth i'w trefniadau bugeiliol a lles ac yn rhoi lles disgyblion a staff wrth wraidd eu dulliau yn ystod y cyfnod clo. Bu ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cefnogi lles disgyblion yn gryfder, gyda bron pob ysgol yn cysylltu â disgyblion a theuluoedd yn rheolaidd.  Codwyd pryderon i'r awdurdod lleol am deuluoedd nad oedd modd cysylltu â nhw.

Roedd llawer o ysgolion yn teimlo y bu mwy o ymdeimlad o gydweithio a gwaith tîm yn ystod y cyfnod hwn. Roedd hyn yn ymestyn i'w hysgolion clwstwr a thu hwnt. Drwy ddatblygu Canolfan Cefnogaeth GwE, roedd hyn yn annog i adnoddau ac arbenigedd gael eu rhannu ac yn cyfrannu at athrawon yn cael trafodaethau ystyrlon am ansawdd y ddarpariaeth. Drwy ddefnyddio llwyfannau digidol, roedd hyn yn gwneud y broses yn fwy effeithlon o ran amser ac yn paratoi'r ffordd i ysgolion fod yn gweithio a chydweithio maes o law.

Mae llawer o arweinwyr wedi gweld cyfle i adolygu'r drefn gyffredinol o gysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod - gwnaed y drefn yn fwy effeithiol ac effeithlon ac fe'i defnyddiwyd i gefnogi'r dysgu, er enghraifft drwy newyddlenni rheolaidd, bwletinau fideo, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol ac ati. Yn sicr, gwelwyd y cyswllt â rhieni yn gwella dros y cyfnod clo. Er hynny, nododd lawer o ysgolion yr angen i gefnogi rhieni a gofalwyr yn fwy effeithiol i helpu eu plentyn i ddysgu.

Roedd y ddarpariaeth i blant gweithwyr allweddol mewn ysgolion yn gryf ac yn well dros y cyfnod, ac yn symud o fod yn ddarpariaeth gofal plant yn y rhan fwyaf o ysgolion i fod yn rhoi pwyslais ar ddysgu a lles. Mewn llawer o ysgolion yn ystod yr ail gyfnod clo, roedd y ddarpariaeth i blant gweithwyr yn cyd-fynd yn well â dysgu cyfunol o bell a arweiniodd at wella cysondeb a chefnogi disgyblion wrth iddynt drosglwyddo yn ôl i'r ysgol. Chwaraeodd cymorthyddion dysgu rôl amlwg wrth ddarparu'r cymorth hwn mewn llawer o ysgolion.

Mewn llawer o ysgolion cynradd, gwnaed defnydd da iawn o ystod o ddangosyddion perfformiad dibynadwy a defnyddiol, gan gynnwys data sillafu, darllen a rhifedd safonedig ac/neu asesiad athro i fesur effaith cyfnod clo COVID-19 ar gynnydd a safonau disgyblion. Yna aeth ysgolion i adnabod disgyblion oedd yn cael anhawster ac angen cymorth ychwanegol. Ar draws y clystyrau, mae disgyblion y mae arnynt angen cymorth ychwanegol yn cael amrywiaeth o strategaethau a rhaglenni effeithiol e.e. rhwyddineb rhifedd SAFMEDS, Headsprout, Reading Eggs, ELSA a'r rhaglen RILL newydd. Drwy ddefnyddio asesiadau diagnostig fel hyn, mae ysgolion wedi gallu monitro cynnydd disgyblion yn agos.

Yn sgil dychwelyd i'r ysgol yn llawn amser fis Mawrth 2021, mae llawer o ysgolion wedi cychwyn ystod gwerthfawr o ddarpariaethau lles ac academaidd sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fel rhaglenni Seasons for Growth, Friends Resilience ac ELSA.

**Sut y mae ysgolion yn bwriadu datblygu ar eu llwyddiant er mwyn datblygu'r cwricwlwm newydd?**

Un canlyniad cadarnhaol i'r pandemig yw bod cydweithio cryf wedi datblygu mewn ysgolion ac ar draws clystyrau.  Mae hyn yn ddatblygiad cryf iawn i'r rhanbarth ar gyfer paratoi am y cwricwlwm newydd a'i weithredu. Mae pedair thema drawsliniol Sefydliadau sy'n Dysgu

(amser, ymddiriedaeth, meddwl gyda'n gilydd a thechnoleg) wedi bod yn amlwg iawn drwy gydol y cyfnodau clo. Mae defnyddio technoleg fwyfwy wedi rhoi rhwydd hynt i berthynas a chydweithio ddatblygu ymhellach gan roi sail gadarn i ysgolion a chlystyrau symud ymlaen gyda'u paratoadau am y cwricwlwm newydd.

Mae llawer o aelodau staff wedi gorfod uwch sgilio yn gyflym wrth i'r ddarpariaeth symud at lwyfan ddigidol. Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid wedi gweld bod cymhwysedd digidol yn faes sydd wedi datblygu'n dda dros y deuddeg mis diwethaf ac maent yn awyddus iawn bod y cynnydd hwn yn nysgu digidol disgyblion a staff yn parhau. Mae ysgolion wedi manteisio ar ystod o ddysgu proffesiynol gan y consortia rhanbarthol ar ddefnyddio technoleg ddigidol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Bellach, mae mwy o ymarferwyr yn gallu defnyddio ystod o dechnoleg yn hyderus i gefnogi'r dysgu. Mae llawer o ysgolion cynradd wedi seilio eu darpariaeth dysgu o bell a chyfunol ar y 12 egwyddor addysgegol fel yr amlinellir yn *adroddiad Dyfodol Llwyddiannus.* Bwriad ysgolion yw datblygu ar eu pwyntiau twf yn ystod y cyfnodau clo i ddatblygu  ymhellach ehangder profiadau a chynnydd dysgwyr. Enghraifft o hyn yw'r pwyslais cynyddol ar addysgeg cwestiynau mawr yn gysylltiedig â datganiadau o'r hyn sy'n bwysig/Meysydd Dysgu a Phrofiad. Nododd y mwyafrif o ysgolion eu bod wedi defnyddio'r amser hwn fel cyfle i arbrofi â dulliau addysgu, ac yn dewis parhau i rannu gwaith ar lwyfannau digidol o fewn y dosbarth, er mwyn datblygu sgiliau dysgu annibynnol dysgwyr.

Mae bron pob ysgol gynradd ac arbennig eisoes wedi dechrau ystyried eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm newydd, yn ystyried beth sy'n berthnasol i'r ardal leol, Cymru a'r byd ehangach.

Roedd lles staff a disgyblion yn ystyriaeth allweddol i bob ysgol drwy gydol y pandemig a pharhaodd hyn wrth i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol.  Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi nodi y byddant yn datblygu ar y gwaith hwn i ddatblygu dull ysgol gyfan tuag at les.  Mae bron pob ysgol wedi datblygu'r elfen les a dysgu yn yr awyr agored yn arw, gan weld sut mae'r meysydd hyn yn cyfrannu at gwricwlwm eang a chytbwys.

Drwy ddatblygu Canolfan Cefnogaeth GwE, mae hyn wedi annog ysgolion cynradd ac arbennig i rannu eu hadnoddau a'u cynlluniau. Bwriad penaethiaid yw dal ati i rannu gwaith ar ddatblygu'r cwricwlwm ar draws eu clwstwr a chydweithio i ddatblygu continwwm 3-16 ar gyfer eu cwricwlwm lleol. Mae llawer o ysgolion yn gwneud cynnydd da wrth gynllunio cwricwlwm lleol sydd yn cynnwys cynllunio ar gyfer llais y disgybl ac ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid yn y gymuned. Mae llawer o ysgolion cynradd yn datblygu ar yr arferion arloesol, creadigol a chydweithredol a ddatblygwyd yn ystod y pandemig i baratoi ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru newydd.

Mae'r gwaith cynllunio gan lawer o ysgolion cynradd ac arbennig bellach yn amlygu pedwar diben y cwricwlwm newydd a dyrannwyd amser i staff ddatblygu ymhellach eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy gael dysgu proffesiynol pwrpasol. Mae llawer o ysgolion hefyd wedi datblygu dimensiynau Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, drwy roi amser i staff weithio ar agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru. Mae ysgolion wedi sefydlu prosesau er mwyn i staff allu rhannu gwybodaeth neu arferion da newydd.  Mae ysgolion mewn rhai clystyrau yn cymryd rhan mewn ystod o fentrau clwstwr defnyddiol ac effeithiol e.e. gwaith adolygu cymheiriaid clwstwr (Rhaglen Partneriaeth Ysgolion) a phrosiectau yn seiliedig ar dystiolaeth gyda Phrifysgol Bangor e.e. y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol.

**Pa welliannau mewn darpariaeth a safonau y mae'r ysgolion wedi'u hadnabod yn sgil targedu eu gwariant grant?**

Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, mae cyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS) wedi targedu grwpiau o ddysgwyr i roi sylw i fylchau a welwyd yn eu dysgu. Targedwyd y grantiau

hefyd at ddisgyblion llai gwydn, â diffyg hyder ac ymgysylltiad gwael. Mae llawer o ysgolion wedi defnyddio'r grantiau i ddarparu cymorth ac ymyrraeth Sgiliau Sylfaenol yn sgil y cyfnod clo. Prynwyd adnoddau a dyrannwyd staff cymorth i ddarparu ymyraethau. Cafodd rai ysgolion anhawster yn cael staff ychwanegol i gyflawni'r rolau hyn felly defnyddiwyd y grant i ymestyn oriau gwaith rhai staff oedd eisoes ar eu llyfrau, gan sicrhau bod yr oriau ychwanegol yn cael eu treulio i gefnogi'r grwpiau o ddysgwyr sydd wedi'u hadnabod.

Targedwyd cynhaliaeth mewn llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol, ymyrraeth gynnar mewn ffoneg a datblygu sgiliau dysgu annibynnol. Ceir llawer o enghreifftiau o dargedu cynhaliaeth yn arwain at wella sgiliau TG disgyblion a'u hyder yn gyffredinol wrth ddefnyddio caledwedd a meddalwedd. Mae bron pob ysgol wedi cynnal rhyw ffurf o asesiadau gwaelodlin wrth ddychwelyd i'r ysgol yn sgil y cyfnod clo er mwyn adnabod grwpiau targed o ddisgyblion. Defnyddiwyd yr adnoddau dysgu carlam a ddatblygwyd gan GwE yn dda. Roedd y rhain yn seiliedig ar dystiolaeth o waith ymchwil i strategaethau ymyrraeth effeithiol. Yn ôl llawer o ysgolion, mae disgyblion sydd yn cael cymorth ychwanegol o ganlyniad i'r grant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o ganlyniad i'w darpariaeth grŵp bach. Mae ysgolion yn dra ymwybodol y gall yr effaith ar ddysgu a lles fod yn hirdymor, ac nad yw hyn i'w weld eto.

Bu llawer o ysgolion cynradd yn cynnig cymorth anogaeth i blant sydd yn cael trafferth ers y cyfnod clo. Cynyddwyd y ddarpariaeth les gan fod mwy o ddisgyblion yn cael trafferth addasu ers y cyfnod clo. Defnyddiwyd arolygon lles a chyfeiriadau gan athrawon a rhieni i adnabod disgyblion i gael ymyrraeth. Ymestynnwyd y ddarpariaeth les hefyd i gynnwys cymorth i deuluoedd i sicrhau bod disgyblion a rhieni yn gallu delio gyda'r sefyllfa hon sydd heb ei thebyg.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi defnyddio eu grant dysgu proffesiynol i ddatblygu cymhwysedd digidol eu staff i gyflwyno dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol yn ogystal â defnyddio'r cyllid i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

**Effaith cymorth/ymwneud GwE ac adnabod cymorth ychwanegol wrth symud ymlaen**

Mewn cyfnod o heriau llethol, nododd lawer o ysgolion cynradd ac arbennig eu bod wedi gwerthfawrogi ac elwa o'r cyswllt a'r cymorth rheolaidd gan swyddogion cyswllt GwE, yn enwedig o ran eu helpu i gadw'n bositif. Mae penaethiaid wedi gwerthfawrogi'r cysur a'r cymorth bugeiliol gan eu Hymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) a'r holi cyson ynghylch eu lles. Gwnaeth lawer o ysgolion sylw ar y cyngor a'r cymorth cyffredinol gan GwE a'r awdurdod lleol a fu'n fuddiol drwy gydol y flwyddyn heriol, er enghraifft, roedd y dangosfwrdd asesu risg a grëwyd ar y cyd gan GwE a'r ALl yn arbennig o fuddiol ac amserol. Nododd ysgolion fod cydbwysedd da rhwng her a chymorth gyda phwyslais cryf ar les a diogelwch. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi gwerthfawrogi'r pryder gwirioneddol am eu lles ac hefyd y cymorth ymarferol gan GwE gyda materion gweithredol e.e. asesiadau risg, adroddiadau hunan arfarnu, canllawiau ar ddysgu o bell a dysgu cyfunol a'r llyfrgell adnoddau (Canolfan Cefnogaeth GwE). Croesawyd hefyd yr hyfforddi a'r mentora gan YCG, felly hefyd y cymorth unigryw i ysgolion unigol.

Roedd Penaethiaid yn gwerthfawrogi rôl yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) o ran darparu cymorth ac arweiniad cychwynnol i ysgolion a chlystyrau i ddatblygu eu darpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol. Nododd lawer bod hwyluso cyfarfodydd clwstwr yn allweddol, ar y cychwyn, i rannu syniadau ac arferion da ar gyfer datblygu eu darpariaeth dysgu o bell ac, yn fwy diweddar, cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd. Nododd lawer fod y cyfarfodydd clwstwr yn llawn cefnogaeth a gwybodaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl a'u lles.

Yn ogystal â'r cymorth ar gyfer dysgu ac addysgu a materion gweithredol, mae penaethiaid wedi mynegi gwerthfawrogiad o'r cymorth a gafwyd i gynllunio'n strategol ac yn enwedig ar gyfer paratoi am y cwricwlwm newydd e.e. creu gweledigaeth, rheoli newid a gweithdai dylunio cwricwlwm. Maent wedi gallu rheoli materion gweithredu dyddiol a chanolbwyntio ar eu cynlluniau hirdymor ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd yr un pryd. Roedd llawer o benaethiaid yn gwerthfawrogi cysondeb y gweithredu ar y draws y rhanbarth. Mae'r anogaeth a'r cydweithio y mae GwE wedi'i hwyluso wedi annog mwy o gysondeb ar draws clystyrau ac arwain at rannu arbenigedd ac adnoddau. Bu modd hefyd cyd-gynllunio a chydweithio i weithredu'r daith ddiwygio.

Mae deialog broffesiynol rhwng ysgolion a'r YCG cyswllt wedi helpu i sicrhau bod eu gwariant grant arfaethedig yn cael ei dargedu'n briodol. Ar y cyfan, mae ysgolion wedi gwerthfawrogi manteision a defnyddioldeb y dangosfwrdd grantiau o ran arbed amser a monitro gwariant. Mae llawer o ysgolion hefyd wedi gwerthfawrogi amrywiaeth y cynnig dysgu proffesiynol ar gael a'r hyblygrwydd o ran cyflwyno ac amseru. Gwnaeth lawer o ysgolion sylw hefyd ar yr amrywiaeth o hyfforddiant a weminarau ar lein oedd ar gael drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE a nodwyd bod y rhain wedi cael effaith bositif ar ansawdd eu darpariaeth dysgu cyfunol ac o bell.

## SECTOR UWCHRADD A'R YSGOLION ARBENNIG AC UCD PERTHNASOL

### Sut mae ysgolion wedi gwerthuso eu darpariaeth a'i heffaith yn ystod y cyfnod clo?

Er mwyn ymateb i ganllawiau gweithredu a dysgu Llywodraeth Cymru, mae ysgolion uwchradd wedi gorfod addasu eu prosesau a'u systemau sicrhau ansawdd. Bu pwyslais cryf ac ymrwymiad cryf ar draws bron pob ysgol uwchradd ac unedau cyfeirio i fod yn myfyrio, yn adolygu ac yn datblygu ymhellach ar arferion yn gyson ym mhob cyfnod yn ystod y pandemig.

Ym mron pob ysgol, mae arweinwyr canol ac/neu uwch arweinwyr wedi monitro ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd drwy Google Classrooms (neu lwyfannau digidol eraill), neu drwy samplo gwaith disgyblion pob hyn a hyn. Ym mron pob ysgol, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi tracio ymgysylltiad disgyblion ac wedi cynnal cyfarfodydd i drafod, er enghraifft, ansawdd y ddarpariaeth, her yn lefel y dysgu, ansawdd yr adborth ac adborth llais y disgybl. Mewn un enghraifft o arfer dda, gwelwyd ysgol yn defnyddio Google Meet i recordio sesiynau byw ac yna'n defnyddio'r sesiynau hyn ar gyfer dysgu proffesiynol i ddibenion gwella a chyfoethogi'r cyflwyno. Mewn enghreifftiau eraill, gwelwyd uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn trefnu o flaen llaw i 'alw heibio' yn anffurfiol mewn sesiynau dysgu byw.

Bu llawer o ysgolion yn cynnal sesiynau i adrannau rannu arferion gorau ac effeithiol, oedd yn arwain at godi hyder staff i rannu gwaith a dulliau a chydweithio â chydweithwyr eraill. Mae gan arweinwyr canol yn y rhan fwyaf o ysgolion fynediad at Teams/Google Classrooms yn eu pynciau/grwpiau blwyddyn. Mae hyn wedi rhoi trosolwg a chyfle i sicrhau ansawdd y dysgu a'r addysgu yn eu meysydd cwricwlwm eu hunain ac arweinwyr bugeiliol yn eu grwpiau blwyddyn. Trafodwyd canfyddiadau â'r uwch dimau arwain i roi gwybod am unrhyw ddatblygiadau neu addasiadau pellach oedd yn angenrheidiol. Mewn un enghraifft, ble roedd dysgwyr a rhieni wedi nodi bod dysgu o bell yn ystod y cyfnod clo wedi bod yn llethol ar brydiau, ymatebodd un ysgol drwy gynnig egwyl rhwng gwersi ar-lein, ymestyn amser cinio, a chynnig hanner diwrnod ar les i annog amser i ffwrdd o'r sgrin. Nododd riant mewn holiadur adborth i un ysgol bod y sesiynau llesiant wedi rhoi cyfle i "ail gysylltu â fy mhlentyn" yn ystod dwyster y cyfnod clo.

Bu sylwadau rhieni ac athrawon yn bwysig o ran gwerthuso effaith, ond byddai'n deg casglu bod y rhan fwyaf o ysgolion wedi gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth yn fwy effeithiol drwy lais rhanddeiliaid a disgyblion, ac wrth ddadansoddi lefel ymgysylltu a lles yn hytrach nag wrth graffu ar sgiliau a safonau, fel ag y buasent wedi'i wneud cyn hyn. Er hynny, mae gwerthuso ar gyfer gofynion gwella wedi bod yn fwy dadansoddol ers Pasg 2021 yn y mwyafrif o ysgolion.

Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr bugeiliol a'u timau ym mhob ysgol uwchradd wedi monitro ymgysylltiad disgyblion â dysgu o bell a dysgu cyfunol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio meddalwedd tracio i olrhain ymgysylltiad disgyblion, sydd ar gael i bob aelod o gymuned yr ysgol. Mae llawer wedi blaenoriaethu ymgysylltiad a chynnydd y dysgwyr mwyaf bregus, gan roi cymorth ychwanegol ble mae angen ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn cael cymorth wyneb yn wyneb yn yr Hybiau ar y safle yn ystod cyfnodau clo. Rhoddwyd strwythurau cryf ar waith yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd i gysylltu â dysgwyr a rhieni/gofalwyr i drafod pryderon a chynnig cymorth. Uwch gyfeiriwyd pryderon i sylw'r Awdurdodau Lleol, pan yn briodol.

Mae ysgolion ac UCD wedi defnyddio arolygon a holiaduron i werthuso effaith newid arferion gwaith ar staff ac ar ddysgwyr. Ym mron pob achos, mae ysgolion wedi defnyddio adborth gan rieni mewn holiaduron i gyfoethogi'r ddarpariaeth addysgol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys lleihau nifer y gwahanol bynciau yn cael sylw mewn un diwrnod hyd at ddatblygu gwaith prosiect dros fwy o amser, er mwyn i waith y disgybl allu cyd-fynd yn well â gallu TG y teulu.

Bu deialog broffesiynol rhwng uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn nodwedd o'r gwerthuso wrth i ddisgyblion gwblhau gwaith mewn llyfrau, ac ar-lein, gyda llawer o ffeirio rhwng y ddwy ffordd o weithio oherwydd cyfnodau ynysu er enghraifft. Bu nosweithiau rhieni rhithiol hefyd yn ffynhonnell bwysig er mwyn cael adborth arfarnol. Mae llawer o ysgolion wedi gwneud y sylw bod nosweithiau i rieni wedi'u cynnal yn llwyddiannus - gyda defnydd o meddalwedd newydd yn cael ei defnyddio i amserlennu apwyntiadau ar-lein. Mae ysgolion wedi arfarnu'r systemau o'r adborth gan athrawon a rhieni, a dywed rhai eu bod yn debygol o barhau â'r system wrth symud ymlaen.

Aeth rhai ysgolion ati i arfarnu sgiliau digidol eu dysgwyr er mwyn canolbwyntio'r hyfforddiant ar y dulliau, y llwyfannau a'r adnoddau digidol mwyaf hwylus i'w defnyddio ac a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar addysgu ar-lein. Mae ysgolion hefyd wedi defnyddio canlyniadau arolygon staff i gynllunio ar gyfer anghenion proffesiynol staff. Er enghraifft, buddsoddodd un ysgol mewn hyfforddiant i'r holl staff fod yn 'Google Educators' ar Lefel 1.

Mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae uwch arweinwyr wedi rhoi blaenoriaeth i fonitro asesiadau yng Nghyfnodau Allweddol 4 a 5, gan gynnwys y rheiny i fwydo i'r Graddau a Bennir gan Ganolfan, i wirio eu bod yn gadarn a thrylwyr. Bu dyfarnu Graddau a Bennir gan Ganolfan yn dreth fawr ar amser athrawon pwnc ac arweinwyr ar bob lefel yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf 2021.

Mewn rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog, rhoddwyd pwyslais cryf ar arfarnu sgiliau Cymraeg disgyblion yn gyson, yn enwedig y disgyblion hynny sydd o gartrefi di-Gymraeg neu wedi bod yn rhan o raglenni trochi. Mae hyn wedi helpu rhai ysgolion i gynnal a gwella sgiliau Cymraeg dysgwyr.

Yn dilyn peilot amlasiantaethol yn ystod 2019-2020 efo nifer bach o ysgolion, bu Llywodraeth Cymru ac Estyn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn ystod Gwanwyn/Haf 2021 i gynnig y cyfle i bob ysgol uwchradd sydd mewn mesurau arbennig i fod yn rhan o'r gweithio aml-asiantaethol hwn. Ar y cychwyn, canolbwyntiodd y dull gweithredu hwn ar drafod lles ac ansawdd y ddarpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol. Bydd monitro a chraffu mwy ffurfiol yn cychwyn yn nhymor yr Hydref, 2021.

Bu rhai o'r cynghreiriau uwchradd yn canolbwyntio ar ddatblygu dulliau sicrhau ansawdd newydd, gydag arweinwyr yn rhannu arferion ac yn datblygu prosesau newydd. Er enghraifft, mewn dwy ysgol, cwblhaodd staff archwiliad o sgiliau digidol ac mae arweinwyr ysgol wedi cynllunio cyfleoedd dysgu proffesiynol ac HMS i staff ar sail y canfyddiadau. Adolygwyd cynnydd yn erbyn yr archwiliad dros y flwyddyn i fesur effaith.

**Beth mae ysgolion wedi adnabod yw cryfderau allweddol eu darpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu yn ystod y cyfnod clo?**

Gwelwyd bod uwch sgilio mewn technoleg ddigidol yn gryfder allweddol ar draws pob ysgol yn ystod y pandemig. Dangosodd arweinwyr ac athrawon gryn hyblygrwydd proffesiynol o ran ennill gwybodaeth a sgiliau newydd i ddarparu dysgu ar-lein. Bu'r dulliau dysgu proffesiynol arloesol a'r rhannu arferion effeithiol o fewn ysgolion, ac ar draws ysgolion, yn gymorth yn hyn o beth. Mae'r cydweithio ag ysgolion, a rhwng ysgolion, wedi bod yn gryfder amlwg, gyda chydweithio ar bolisïau, adnoddau a chyfathrebu yn allweddol, er enghraifft, drwy'r Cynghreiriau y mae GwE wedi'u hwyluso. Mae pob ysgol wedi rhannu adnoddau ac arferion effeithiol drwy eu cynghreiriau a Chanolfan Cefnogaeth GwE.

Yn ôl llawer o ysgolion, bu mwy o greadigedd yn y dysgu a'r addysgu. Mae arweinwyr ysgolion, ar bob lefel, wedi defnyddio canllawiau rhanbarthol a chenedlaethol yn amserol ac yn bwrpasol i lywio ac addasu eu dulliau gweithredu, ac maent wedi rhoi canllawiau a disgwyliadau manwl i staff. Mae'r canllawiau a'r dulliau gweithredu a ddefnyddir hefyd yn seiliedig ar waith ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol i arferion effeithiol.

Bu'r pwyslais ar les yn gryf ar draws pob ysgol a'r unedau cyfeirio. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi bod yn gweithredu cyswllt wythnosol, neu ddyddiol weithiau, â dysgwyr bregus a rhieni/gofalwyr. Fel arfer, mae hyn wedi golygu rhwydwaith helaeth o arweinwyr/staff bugeiliol/staff gweinyddol ac eraill yn cychwyn neu'n ymateb i wahanol anghenion. Ble codwyd pryderon, bu'r ysgolion yn gweithio ar y cyd â'r awdurdod lleol ac asiantaethau allanol i gefnogi'r dysgwyr hynny a'u teuluoedd, a daeth llawer i'r ddarpariaeth Hwb i gael cymorth wyneb yn wyneb.

Parhaodd y rhan fwyaf o ysgolion i ganolbwyntio ar ddysgu 'cyfunol' yn ystod y cyfnod clo gan lwyddo i sicrhau bod cyfran o'u gwersi wedi cael eu cyflwyno'n 'fyw'. Gwelwyd mwy o ffrydio gwersi byw yn digwydd yn ystod yr ail gyfnod clo yn sgil newidiadau yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd rhai gwersi yn fwy effeithiol mewn ffordd anghydamserol, fel bod modd i ddysgwyr fynd at wersi ac adnoddau ar adegau gwahanol a mwy cyfleus. Mae enghreifftiau o sesiynau cofrestru boreol a gwasanaethau ysgol yn cael eu cyflwyno'n effeithiol yn fyw ar-lein hefyd.

Bu arweiniad a chyfathrebu efo rhieni/gofalwyr yn nodwedd gyson gref o'r ddarpariaeth ar draws yr ysgolion uwchradd. Nododd lawer o ysgolion fod y cyfathrebu â rhieni a rhanddeiliaid eraill ynghylch y dysgu ac addysgu wedi newid a gwella'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwn. Bu'n rhaid addasu'r cyfathrebu a chyfathrebu'n amlach ac mae ysgolion wedi datblygu dulliau rhithiol, fel defnyddio cyfarfodydd Teams ac apiau nosweithiau rhieni ar-lein i ddatblygu eu systemau cyfathrebu. Yn ôl llawer o ysgolion, roeddent yn defnyddio holiaduron yn bwrpasol i gasglu barn rhanddeiliaid, sydd wedi arwain at addasu a gwella'r ddarpariaeth mewn llawer o achosion. Gwelwyd bod rhannu protocolau a disgwyliadau ynghylch dysgu o bell efo rhieni/gofalwyr yn agwedd a oedd wedi gwella'n sylweddol erbyn yr ail gyfnod clo. Er enghraifft, mae un ysgol wedi datblygu gwefan i rieni i rannu gwybodaeth a chanllawiau ar sut i gefnogi eu plentyn, gyda fideos yn dangos 'sut i...' Er hynny, dyma agwedd y gellir ei datblygu ymhellach mewn llawer o ysgolion i helpu rhieni a gofalwyr i gefnogi eu plentyn i ddysgu.

**Sut y mae ysgolion yn bwriadu datblygu ar eu llwyddiant er mwyn datblygu'r cwricwlwm newydd?**

Gwelwyd bod cydweithio a rhannu arferion effeithiol wedi datblygu'n dda ar draws yr ysgolion. Er mwyn cefnogi'r dysgu o fewn y cwricwlwm newydd, gellir datblygu ymhellach dysgu gyda thechnoleg newydd, addysgeg ddigidol ac addasiadau i strwythur diwrnod yr ysgol. Bydd y cynnydd a wnaed mewn cymhwysedd digidol hefyd yn helpu i sicrhau mannau cychwyn rhagorol ar gyfer sicrhau bod arloesi gyda'r cwricwlwm a hyder ymhlith staff a disgyblion wrth ddefnyddio technolegau newydd. Mae ysgolion wrthi'n adnabod mannau cychwyn i fanteisio ar y datblygiadau a welwyd mewn dysgu digidol, gweithio'n annibynnol a dysgu creadigol. Bydd dysgu ar-lein yn cynnig ffyrdd pwysig ac arloesol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd a datblygu dysgu annibynnol ymhellach. Bydd y dechnoleg newydd hefyd yn cefnogi cydweithio 3 i 16 a chyfathrebu gwell â rhanddeiliaid. Bu llawer o ysgolion yn arbrofi â ffyrdd newydd o gynllunio sydd wedi golygu rhywfaint o integreiddio ar draws pynciau a rhai unedau gwaith hirach, gyda mwy o annibyniaeth a dewis i ddisgyblion. Bydd yn ddefnyddiol arfarnu newidiadau fel hyn yn fanwl i ysgolion wrth iddynt ddatblygu eu cynllun cwricwlwm.

Mae ysgolion wedi cryfhau'r berthynas rhwng y cartref a'r ysgol ymhellach gan fod rhieni wedi ymwneud mwy o ran deall ac yn cefnogi'r cynnig cwricwlwm i ddysgwyr yn ystod y cyfnod hwn. Mae llais y disgybl wedi cynyddu gan fod dysgwyr wedi gallu cael mwy o ddewis a llais yn eu gwaith. Mae ysgolion wedi ymateb i sylwadau i addasu'r ddarpariaeth ble bo'n briodol. Bu llais y dysgwr yn arbennig o bwysig yn ystod y pandemig er mwyn mesur yr effaith ar ymgysylltu a lles. Gwêl lawer o ysgolion bod hyn yn agwedd hanfodol ar eu gwaith cynllunio wrth symud ymlaen.

Yn ystod y cyfnod clo, cafodd ysgolion ac unedau cyfeirio gyfleoedd i weithio fel sefydliadau sy'n dysgu er mwyn cryfhau a datblygu'r 4 thema drawsliniol sef Amser, Meddwl Gyda'n Gilydd, Ymddiriedaeth a Thechnoleg.  Yn fwy nag erioed, mae ysgolion wedi gorfod sicrhau cyfleoedd dysgu parhaus i bob aelod staff i ddarparu dysgu o bell effeithiol a gwneud defnyddio priodol o dechnoleg.

Mae nifer cynyddol o ysgolion uwchradd wedi datblygu eu perthynas ag ysgolion cynradd y dalgylch ac wedi dechrau cyfarfod i drafod datblygiadau'r Cwricwlwm i Gymru. Bu llawer o uwch arweinwyr mewn sesiynau hyfforddiant gan GwE ar reoli newid, yn creu gweledigaeth gyffredin ac yn cyd-gynllunio. Mae YCG yn datblygu ar y cyswllt cychwynnol hwn gyda mwy o gymorth unigryw ar lefel ysgol a chlwstwr.

Dangosodd y cyfnod COVID fod ysgolion yn gallu bod yn gryf yn wyneb newid sy'n digwydd yn aml, yn sydyn ac sy'n tarfu. Mae'r pwyslais ar les a gwydnwch disgyblion yn faes sydd hefyd wedi datblygu'n dda yn ystod y pandemig. Mae llawer o staff wedi dechrau ystyried goblygiadau iechyd a lles ar gyfleoedd dysgu a phrofiadau i'w dysgwyr. Ar adeg pan ataliwyd y cwricwlwm cenedlaethol dros dro, cafodd staff y cyfle i adnabod blaenoriaethau dysgu i'w hysgol ac, o ganlyniad, cynllunio dysgu a phrofiadau i fodloni anghenion dysgwyr, yn unol â phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru.

Daeth cadarnhad gan y Gweinidog Addysg y parheir i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion cynradd, ysgolion meithrin a gynhelir ac UauCD meithrin nas cynhelir o fis Medi 2022. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y rhoddir rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol i ysgolion uwchradd. Yn 2022, bydd ysgolion sy'n barod i gyflwyno'r cwricwlwm i flwyddyn 7 yn gallu bwrw ymlaen gyda hynny. Er hynny, ni fydd hi'n statudol i weithredu'r cwricwlwm newydd yn ffurfiol tan 2023, gyda'r cyflwyno yn digwydd yn y flwyddyn honno i flynyddoedd 7 ac 8 efo'i gilydd. Dyma fydd yr achos hefyd mewn ysgolion arbennig ac ysgolion 3 i 16 oed.

Bydd GwE yn annog ysgolion uwchradd ac arbennig sy'n gallu bwrw ymlaen i weithredu'r cwricwlwm newydd efo Blwyddyn 7 o fis Medi 2022. Rydym hefyd yn sylweddoli y bydd rhai ysgolion uwchradd yn dewis i barhau ar eu llwybr tuag at ddiwygio'r cwricwlwm o fis Medi 2022, ac y byddant yn gweithredu'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2023 pan ddaw'n statudol i flynyddoedd 7 ac 8. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gwaith diwygio'r cwricwlwm, ac yn enwedig y cyswllt uniongyrchol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn parhau er mwyn cefnogi dysgwyr i bontio waeth beth yw'r amserlen weithredu a ddefnyddir gan yr ysgol uwchradd.

**Pa welliannau mewn darpariaeth a safonau y mae'r ysgolion wedi'u hadnabod yn sgil targedu eu gwariant grant?**

Ar y cyfan, mae llawer o ysgolion uwchradd wedi rhoi blaenoriaethu cyllid i garfanau o ddisgyblion penodol fel disgyblion sydd yn paratoi am 'arholiadau' (Blynyddoedd 11, 12 ac 13), disgyblion bregus a difreintiedig, Blwyddyn 7 ac unrhyw grwpiau neu unigolion penodol all fod angen cymorth. Targedwyd cynhaliaeth mewn llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol, datblygu sgiliau dysgu annibynnol ac ymgysylltu drwy hyfforddiant.

Bu ysgolion yn greadigol gyda'r datrysiadau a fabwysiadwyd, er enghraifft:

- cyflogi mentoriaid i yrru ymyraethau gyda disgyblion penodol
- cyflogi anogwyr dysgu i roi sylw i rwystrau dysgu a gwella cynhwysiant
- darparu gwersi ychwanegol i ddisgyblion
- rhyddhau aelodau staff i arwain ar lythrennedd a rhifedd neu benodi athro ychwanegol i gynnal sesiynau llythrennedd a rhifedd gyda grwpiau penodol o ddisgyblion yr oedd arnynt angen cymorth ychwanegol yn ystod y cyfnod clo
- penodi arweinydd ar gyfer Rhaglen Cyflymu Dysgu ysgol gyfan er mwyn cynllunio cymorth ychwanegol i ddisgyblion

Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys penodi cymorthyddion addysgu ychwanegol/mentoriaid neu gynyddu amser cymorthyddion dysgu ac anogwyr sydd eisoes mewn swydd i gynnal sesiynau dal fyny ac annog. Blaenoriaethodd lawer o ysgolion eu cyllid i sicrhau cymorth priodol i ddisgyblion oedd wedi datgysylltu o'u haddysg yn ystod y cyfnod clo.

Trwy'r Grant Dysgu Proffesiynol, dywed ysgolion uwchradd bod staff wedi ymgymryd yn dda â dysgu proffesiynol perthnasol ac amserol yn ystod y cyfnod clo er mwyn sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r hyn yw dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol. Yn ddi-os, cafodd hyn effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth.

Defnyddiodd ysgolion y grantiau GDD i gefnogi disgyblion difreintiedig. Er enghraifft, defnyddiwyd y grant yn effeithiol i gefnogi disgyblion PYD i gael gwersi cerddoriaeth, cael mynediad i ddyfeisiau digidol ble roedd angen ac i sicrhau parhad y dysgu. Defnyddiodd y rhan fwyaf o ysgolion y grant i sicrhau bod dysgwyr PYD yn cael cymorth ychwanegol mewn grwpiau llai, neu gymorth gan fentoriaid a chwnselwyr.

**Effaith cymorth/ymwneud GwE ac adnabod cymorth ychwanegol wrth symud ymlaen**

Roedd bron pob ysgol uwchradd a’r unedau cyfeirio yn croesawu'r cymorth aml ac addasol gan yr YCG yn ystod y cyfnod clo. Roedd hyn yn cynnwys galwadau ac ymweliadau bugeiliol aml yn ogystal â chyfarfodydd rhwng YCG ac arweinwyr canol ac uwch arweinwyr eraill ar gais Penaethiaid.

Bu ysgolion yn gadarnhaol iawn am gyfraniadau GwE at fforymau lleol penaethiaid uwchradd a fu'n cyfarfod yn rheolaidd ers mis Mawrth 2020. Mynegodd y Penaethiaid hefyd eu bod yn ddiolchgar o'r cyfarfodydd Penaethiaid rhanbarthol, yn enwedig y cymorth ar gyfer y broses dyfarnu Graddau a Bennir gan Ganolfan. Noda ysgolion hefyd eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth gan YCG gyda'r broses ddyfarnu (gan gynnwys cymorth ychwanegol gan yr ymgynghorwyr pynciau craidd).

Croesawyd yn fawr yr arweiniad a'r cymorth ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol. Mae rhai ysgolion wedi addasu eu dulliau o gynllunio a darparu ar sail eu defnydd o adnoddau a rannwyd drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE. Ar y cyfan, roedd ysgolion yn siarad yn gadarnhaol am y cynghreiriau a bod GwE yn hwyluso'r cyfle hwn i gydweithio ag ysgolion eraill.

Croesawyd dangosfwrdd Asesu Risg COVID a'r dangosfwrdd grantiau yn fawr iawn hefyd.

Mynegodd lawer o ysgolion eu gwerthfawrogiad o'r Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth a addaswyd i gael eu cyflwyno ar-lein.

Cafwyd ymateb cadarnhaol i Gynlluniau Cymorth pwrpasol tymhorol GwE ac yn enwedig y dull hyblyg sydd wedi caniatáu lle i ymateb i anghenion sy'n newid.

## Arfarnu Deilliannau yn CA4 a CA5

Yn ei ddatganiad ysgrifenedig (dyddiedig 21 Mehefin 2021), cadarnhaodd y Gweinidog Addysg 'y bydd y penderfyniad i atal mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a’r chweched dosbarth yn ymestyn i flwyddyn academaidd 2021/22. *Ni fydd data dyfarniadau cymwysterau yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar ddeilliannau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortiwm rhanbarthol ac ni ddylid ei ddefnyddio i ddwyn ysgolion i gyfrif am ddeilliannau dysgwyr.*'

Cadarnhaodd hefyd '*bydd yn ofynnol i bob ysgol a darparwr ôl-16 barhau i gynnal hunanwerthusiad effeithiol ar gyfer gwella'n barhaus. Mae ein trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ni’n gofyn iddynt ystyried ystod eang o wybodaeth sy’n berthnasol i gyd-destun yr ysgol ei hun wrth hunanwerthuso a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Golyga hyn y bydd ysgolion, gyda chymorth yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, yn defnyddio'r gwybodaeth sydd ganddynt ar lefel disgyblion am gyrhaeddiad a deilliannau eraill i fyfyrio ar eu trefniadau presennol a'u gwella.'*

Felly, yn Nhymor yr Hydref 2021, bydd GwE yn cefnogi ysgolion i werthuso eu Graddau a Bennir gan y Ganolfan a'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y broses eleni.

Dylai ysgolion ystyried yr agweddau isod wrth werthuso:

- Pa wersi a ddysgwyd am ba mor gadarn yw gweithdrefnau safoni a chymedroli mewn ysgolion? I ba raddau y bydd prosesau yn cael eu miniogi ymhellach?
- A ydych chi'n hyderus y bydd pob arweinydd ar draws yr ysgol wedi adnabod eu blaenoriaethau gweithredu ar gyfer 2021-22 yn gadarn ac yn bwrpasol? Pa gynlluniau a fabwysiadwyd i gefnogi arweinwyr pwnc gyda'r gwaith hwn os codwyd pryderon?
- I ba raddau ydych chi'n hyderus bod pob adran [ble'n berthnasol] wedi darparu arweiniad, cymorth ac adborth effeithiol i gynyddu cyfraniad 'gwaith cwrs' cymaint â phosibl? Pa gynlluniau a fabwysiadwyd i gefnogi arweinwyr adran ble codwyd pryderon?
- Beth welwyd oedd eich cryfderau allweddol? Pa gynlluniau a fabwysiadwyd i rannu'r rhain ar draws yr ysgol?

- A ydych chi wedi adnabod unrhyw feysydd/pynciau ble mae angen miniogi cywirdeb y tracio a'r asesu? Pa gynlluniau a fabwysiadwyd i gefnogi arweinwyr pwnc/athrawon gyda'r gwaith hwn fel y gellir targedu amrywiant mewn ysgol yn effeithiol?
- I ba raddau y bydd canfyddiadau yn cael effaith ar brosesau a gweithdrefnau asesu, targedu, tracio ac ymyrraeth?
- I ba raddau y bydd canfyddiadau yn cael effaith ar eich blaenoriaethau CiG i'w gweithredu eleni a thu hwnt?
- I ba raddau y bydd canfyddiadau yn cael effaith ar eich cynlluniau i ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn CA3?
- I ba raddau y bydd canfyddiadau yn cael effaith ar eich cynlluniau i ddatblygu ymhellach lles, presenoldeb a chynhwysiant?
- I ba raddau y bydd canfyddiadau yn cael effaith ar gynlluniau i ategu'r cymorth i grwpiau o ddisgyblion bregus?
- Pa gynlluniau sydd i gydweithio ag ysgolion eraill y rhanbarth i gefnogi a chynorthwyo rhagor o welliannau? I ba raddau y bydd cydweithio yn cynnwys cyfraniad uwch arweinwyr a staff addysgu?

## MEYSYDD SYDD ANGEN EU DATBLYGU A'U CEFNOGI YMHELLACH.

Mae ysgolion ar draws pob sector wedi nodi'r angen am gymorth yn y meysydd canlynol:

- Gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru - yn enwedig dylunio a chynllunio'r cwricwlwm i gyflwyno'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh).
- Dulliau asesu a'r cysyniad o gynnydd i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd
- Tracio cynnydd disgyblion
- Cysylltiadau â'r diwygio ehangach fel ADY a'r Gymraeg.
- Corffori dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant.
- Cael grwpiau o ddysgwyr i ail-gydio ym Mis Medi, dysgwyr nad oedd wedi ymdopi yn rhy dda yn ystod y cyfnod clo.
- Gwella dysgu ac addysgu, gwahaniaethu, asesu ffurfiannol ac adborth i ddysgwyr.
- Gwella sgiliau'r Gymraeg, llafaredd yn enwedig
- Cryfhau'r trefniadau a'r ddarpariaeth ar gyfer pontio rhwng y cynradd a'r uwchradd/arbennig a datblygu continwwm 3 i 16
- Gweithredu ar y camau mewn cynlluniau cymorth amlasiantaethol 360 (yn benodol mewn ysgolion sy'n achosi pryder)
- Miniogi prosesau sicrhau ansawdd ymhellach ac arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion
- Datblygu gwella ansawdd yn unol â phedwar diben y cwricwlwm newydd
- Defnyddio data dibynadwy fel tystiolaeth ar gyfer gwella
- Gwella ymgysylltiad rhieni i gefnogi'r dysgu
  Datblygu adolygu gan gymheiriaid ymhellach drwy'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion
- Datblygu cydweithio ar lefel strategol ehangach er mwyn symud at system sy'n hunan wella
- Rhaglenni Dysgu Carlam i roi sylw i effaith y cyfnod clo ar sgiliau sylfaenol
- Paratoi ar gyfer arholiadau Haf 2022
- Gwerthuso effaith gwariant grant

Mae’r canfyddiadau uchod hefyd yn berthnasol i ysgolion arbennig ac UCD. Fodd bynnag mae’r agweddau canlynol hefyd wedi’u nodi fel meysydd i’w datblygu a’u cefnogi ymhellach:

- Ymgorffori'r prosiectau cydweithredu presennol a rhannu'r dysgu ar draws y sector;

- Parhau i gynnig cyfleoedd arweiniol i reolwyr canol i roi cyfleoedd iddynt ddatblygu eu sgiliau arwain ymhellach;
- Cydweithio i ddadansoddi effeithiolrwydd y gwaith a wnaethpwyd ar y cyd;
- Parhau i ddylunio a chynllunio profiadau dysgu cyfoethog o amgylch y pedwar diben a nodi'r ffyrdd gorau o asesu cynnydd ar draws yr ystod o anghenion dysgwyr.

**BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL**

Mae'r broses arfarnu wedi adnabod y blaenoriaethau rhanbarthol lefel uchel hyn:

- Sefydlu strategaeth ranbarthol glir i weithredu cynllun adfer COVID-19 Llywodraeth Cymru: Adnewyddu a diwygio i gefnogi lles a chynnydd dysgwyr (cyhoeddwyd yn gyntaf 16 Mehefin 2021)

- Sefydlu rhwydweithiau datblygu i bob Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) ar lefel ranbarthol a lleol fel bod arweinwyr ysgol ac ymarferwyr yn gallu cydweithio i ddatgloi potensial pob Maes drwy fodelu, dylunio a rhannu arferion cwricwlwm.

- Sicrhau bod cyswllt uniongyrchol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn parhau er mwyn cefnogi dysgwyr i bontio waeth beth yw'r amserlen weithredu a ddefnyddir gan yr ysgol uwchradd.

- Datblygu fframwaith ansoddol rhanbarthol er mwyn dangos ac arfarnu cynnydd ysgol/clwstwr mewn dull cyfannol.

- Adolygu prosesau i roi sylw i ysgolion sy'n destun pryder a gweithio gydag Awdurdodau Lleol i sefydlu a gweithredu strwythurau a phrotocolau rhanbarthol ar gyfer adnabod, cefnogi a herio Ysgolion sy'n Destun Pryder.

- Cryfhau ymhellach y diwylliant, yr ymddygiad, y systemau a'r prosesau er mwyn cymell arweinwyr ac athrawon i gyd-ymdrechu er sicrhau gwelliant ysgol.

Atodiad 1

**Arfarniad ysgol.** Nid oes rheidrwydd i ysgolion ddefnyddio hwn, ond gellir ei ddefnyddio:

- i ysgolion ei gwblhau eu hunain
- i ysgolion wirio yn erbyn eu prosesau hunan arfarnu eu hunain
- gan glystyrau neu grwpiau cydweithio fel sail i'w harfarniadau ar y cyd.

| **Ysgol** | | **YCG Cyswllt** | |
|---|---|---|---|

**Am Dymor y Gwanwyn/Haf 2021**

Prif gryfderau

- 
- 
- 

Meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach

- 
- 
- 

**Gweithredu a Chynnydd**

**Sut mae ein hysgol wedi gwerthuso ei darpariaeth a'i heffaith yn ystod y cyfnod clo?**

- Sut mae ein hysgol wedi crynhoi canfyddiadau er mwyn nodi cryfderau, meysydd i'w gwella, ac wedi cynllunio ar gyfer gwella ymhellach? A oes gennym enghreifftiau sy’n dangos tystiolaeth o hyn?
- Os nad yw ein hysgol wedi gallu cynnal prosesau hyd yma oherwydd cyfyngiadau Covid, beth yw'r bwriad ar gyfer y tymor hwn?

**Beth yw ansawdd ein darpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu yn ystod y cyfnod clo?**

- Beth mae ein tystiolaeth yn ei amlygu am gynnydd dysgwyr yn ystod y cyfnod clo? A yw hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dysgwyr bregus?
- Sut mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu ac asesu wedi esblygu yn ein hysgol yn ystod y cyfnod hwn?
- Beth yw'r prif gryfderau yn ein dulliau addysgu ac asesu, cyflawniad a chynnydd?
- Pa agweddau sydd eu angen eu cryfhau ymhellach o ran addysgu, asesu, cyflawniad a chynnydd?
- Pa heriau ydym ni wedi'u hadnabod o ran dysgu ac addysgu wrth symud ymlaen, a sut ydym ni'n bwriadu ymateb i'r rhain?

**Sut y mae'r ysgol yn bwriadu meithrin ei llwyddiannau er mwyn datblygu'r cwricwlwm newydd?**

- Sut ydym wedi mesur cynnydd mewn perthynas â'r daith ddiwygio?
- Sut ydym wedi cyfrannu fel partner at waith clwstwr?
- Sut mae ein hysgol wedi datblygu dimensiynau Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yn ystod y cyfnod hwn?
- Sut ydym wedi manteisio ar waith cymheiriaid i ddilysu ein harfarniadau a'n cefnogi ar ein taith wella? A ydym yn chwarae rhan gyfatebol gyda’n hysgolion partner?

**Sut mae'r ysgol wedi monitro a gwerthuso'r defnydd o'r amrywiol grantiau sydd ar gael, a'i effaith, a pha negeseuon allweddol sydd wedi codi hyd yma?**

- Sut ydym wedi targedu gwariant grant a beth yw effaith hynny ar ddarpariaeth a safonau?
- Pa negeseuon sydd ar gyfer gwariant grantiau pellach?

**Beth yw ansawdd ein darpariaeth ar gyfer llesiant dysgwyr yn ystod y cyfnod clo?**

- Beth mae ein tystiolaeth yn ei amlygu am gynnydd dysgwyr yn ystod y cyfnod clo?
- Beth yw ein prif gryfderau o ran y ddarpariaeth les?
- Pa agweddau sydd angen eu cryfhau ymhellach o ran y ddarpariaeth les?

| |
|---|
| • Pa heriau ydym wedi eu hadnabod o ran lles wrth symud ymlaen, a sut ydym yn bwriadu ymateb i'r rhain? |
| |
| **Sut mae arweinyddiaeth ar draws ein hysgol wedi datblygu dros y cyfnod clo?**<br>• Beth fu'r heriau mwyaf?<br>• A ydym wedi cael cyfleoedd i ddatblygu neu arloesi?<br>• A oes gennym arferion arwain y gellid eu rhannu gydag ysgolion eraill?<br>• A ydym wedi adnabod agweddau arweinyddiaeth sydd angen cefnogaeth? |